

Rhifyn 57


Ffonau symudol

Oeddech chi'n gwybod?


Mae gan dros 80% o bobl y byd ffôn symudol.



Fel arfer, mae defnyddwyr ffonau symudol yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn chwarae gemau ac yn rhyngweithio'n gymdeithasol.



Mae tua 74% o ddefnyddwyr ffonau symudol yn defnyddio'u ffôn i siopa.



Mae mwy o bŵer cyfrifiadurol (*computing power*) mewn ffôn symudol nag yn y cyfrifiadur helpodd Apollo 11 i lanio ar y Lleuad yn 1969.



Llun: [5927 NASA](#) - [Neil Armstrong](#) © NASA

Ym Mhrydain, mae tua 100,000 o ffonau symudol yn syrthio i mewn i doiled bob blwyddyn.



Mae'ch ffôn chi'n frwnt - neu'n fudr - iawn! Mae mwy o facteria ar ffôn symudol nag ar sedd y toiled (tua 10 gwaith yn fwy!) neu handlen toiled (tua 18 gwaith yn fwy!!). Faint o facteria? Yn ôl rhai arbenigwyr, mae tua 25,000 o facteria ar bob modfedd sgwâr!



Mae'n bosib gwefru batri ffôn symudol gydag wrin.

[Rhaid defnyddio silindrau sy'n llawn micro-organebau arbennig. Mae'r rhain yn bwydo ar bethau yn yr wrin ac yn cynhyrchu electrons. Yna, mae'r electrons yn cael eu troi i mewn i drydan ar gyfer gwefru ffonau ...

... OND ...

... peidiwch â thrio hyn eich hun!!!!]



Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
rhyngweithio	cysylltu neu weithio gydag eraill	(to) interact
yn gymdeithasol	gyda phobl eraill	social
pŵer cyfrifiadurol	maint cof cyfrifiadur	computing power
gwefru	creu pŵer ar gyfer batri	(to) charge
micro-organebau	anifeiliaid neu blanhigion bach iawn	micro-organisms

Dau lun

Edrychwch ar y ddau lun yma'n ofalus am funud. Yna, ewch i'r adran Tasgau.



Llun: [Exposant grande braderie lille](#) - Romainberth © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported](#), [2.5 Generic](#), [2.0 Generic](#) a [1.0 Generic](#)

Pa mor h-ap-us ydych chi?

Pa mor h-ap-us ydych chi?

Pa mor h-ap-us ydych chi gyda'ch ffôn symudol - os oes gennych chi un?


Pa mor h-ap-us ydych chi gyda'r apiau sydd ar eich ffôn symudol - os oes gennych chi ffôn wrth gwrs?

 <p>Lee</p>	<p>Does gen i ddim ffôn a dw i'n hapus iawn, diolch yn fawr.</p>
 <p>Alys</p>	<p>Does gen i ddim ffôn ond dw i ddim yn hapus o gwbl achos mae gan fy ffrindiau i gyd ffon.</p>
 <p>Adina</p>	<p>Pam nad oes gen ti ffôn?</p>
 <p>Alys</p>	<p>Dydy fy rhieni i ddim yn meddwl bod angen ffôn arna i ar hyn o bryd a dydyn nhw ddim eisiau talu am rywbeth sydd ddim ei angen arna i.</p>
 <p>Adina</p>	<p>Digon teg – ond beth am gynnig talu am ffôn dy hun?</p>
 <p>Alys</p>	<p>Sut? Does gen i ddim arian.</p>
 <p>Adina</p>	<p>Gallet ti gynilo.</p>

 Ben	<p>... a gallet ti wneud gwaith rhan-amser efallai i ennill arian.</p>
 Lee	<p>Ond pam fasai Alex eisiau ffôn?</p>
 Ben	<p>Achos mae'n ddefnyddiol. Rwyt ti'n gallu siarad â dy ffrindiau, er enghraifft ...</p>
 Lee	<p>Dw i'n gallu siarad gyda fy ffrindiau heb ffôn. Dw i'n eu gweld nhw yn yr ysgol a dw i'n byw yn agos atyn nhw.</p>
 Adina	<p>... ac rwyt ti'n gallu chwarae gemau ...</p>
 Lee	<p>Ond dw i'n gallu chwarae gemau heb ffôn.</p>
 Felix	<p>... ac rwyt ti'n gallu gwyllo ffilmiau ...</p>
 Lee	<p>Ond dw i'n gallu gwyllo ffilmiau - yn well - ar y teledu a'r cyfrifiadur ...</p>
 Ben	<p>... ac rwyt ti'n gallu cael hwyl gydag apiau - ap cadw'n heini, er enghraifft.</p>

 <p>Lee</p>	<p>Dw i'n rhedeg, yn chwarae tennis ac yn mynd i'r ganolfan hamdden. Dw i'n heini iawn - heb ffôn!</p>
 <p>Adina</p>	<p>Sut mae dy wallt di'n edrych?</p>
 <p>Lee</p>	<p>Mmm?!? Pardwn?</p>
 <p>Adina</p>	<p>Wel, os wyt ti'n cael problemau gyda dy wallt, mae ap ar gael i roi help i ti.</p>
 <p>Lee</p>	<p>O, grêt?!? Wel, mae jyst rhaid i mi gael ffôn nawr!</p>
 <p>Adina</p>	<p>Mae'n rhoi cyngor ar sut i steilio dy wallt os yw hi'n wyntog neu'n oer iawn neu'n boeth iawn neu'n bwrw glaw ...</p>
 <p>Lee</p>	<p>O - defnyddiol iawn!!!!?</p>
 <p>Felix</p>	<p>A sut mae dy anadl di?</p>
 <p>Lee</p>	<p>Yn ffresh fel mintys, diolch yn fawr. Pam wyt ti'n gofyn?</p>

 <p>Felix</p>	<p>Wel, mae dyfais fach ar gael sy'n gallu dweud wrthot ti os ydy dy anadl di'n drewi! Rwyd ti'n anadlu i mewn i ddyfais fach blastig ac yna, gyda help <i>bluetooth</i>, bydd dy ffôn symudol di'n dweud wrthot ti oes gen ti broblem! Clyfar!</p>
 <p>Lee</p>	<p>"Clyfar"? Diangen os wyt ti'n gofyn i fi. Os wyt ti'n brwsio dy ddannedd di bob bore a bob nos does dim problem!</p>
 <p>Ben</p>	<p>Wel, beth am yr ap yma 'te – Runpee! Dychmyga beth mae'r ap yma'n gallu wneud.</p>
 <p>Lee</p>	<p>Dim diolch – dw i ddim eisiau dychmygu!</p>
 <p>Ben</p>	<p>Gwranda – wyt ti'n hoffi mynd i'r sinema?</p>
 <p>Lee</p>	<p>Ydw, pam?</p>
 <p>Ben</p>	<p>Wyt ti eisiau mynd i'r toiled weithiau – ar ganol ffilm?</p>
 <p>Lee</p>	<p>Ddim fel arfer, ond pam wyt ti'n gofyn?</p>
 <p>Ben</p>	<p>Wel, os wyt ti eisiau mynd i'r tŷ bach ar ganol ffilm, mae'r ap yma'n dweud wrthot ti pryd yn union i fynd.</p>

 <p>Lee</p>	<p>Grêt – dyna jyst beth dw i eisiau! Sut ydw i wedi gallu byw am 13 o flynyddoedd heb yr ap yma?</p>
 <p>Ben</p>	<p>Mae'n ffantastig. Os wyt ti'n gwyllo ffilm yn y sinema ac rwy'ti'n teimlo dy fod ti angen mynd i'r tŷ bach, mae'r ap yma'n gallu dweud wrthot ti pryd mae'r adeg orau i fynd. Mae'n dweud wrthot ti pan does dim byd llawer yn digwydd ar y sgrin ac felly rwy'ti'n gallu rhedeg allan a ...</p>
 <p>Lee</p>	<p>O, diolch yn fawr!! Dyna reswm da dros brynu ffôn symudol a chael apiau gwahanol yntê. Rhaid i fi ruthro i lawr i'r siop ffonau ar unwaith!</p>

Pryd ...?

F'annwyl chwaer,

Bydd derbyn gair gennyf yn brofiad annisgwyl iawn i ti. Yn wir, dyma'r tro cyntaf i mi bostio llythyr at unrhyw un. Gan fod stampiau du newydd ar gael am 1 geiniog ers yr wythnos diwethaf, meddyliais y byddai'n beth da i mi bostio fy nymuniadau gorau atat ar gyfer dy ben-blwydd gan mai dyma'r unig ffordd y gallaf gysylltu â thi.

Gobeithio bod y teulu'n cadw'n iach. Rhaid bod y plant yn tyfu'n gyflym a phrin y byddwn yn eu hadnabod gan nad wyf wedi gweld Siôn a Dafydd ers pum mlynedd. A yw'r baban newydd wedi ei eni eto? Os felly ai merch neu fachgen ydyw? A yw'n cymryd ar dy ôl di neu Deio?

Rydym yn iach yma. Mae'r bechgyn hynaf yn mynd i'r ysgol ac mae eu sgiliau ysgrifennu, darllen a chyfrifo yn datblygu'n dda. Mae'r ystafell lle y dysgant yn addas iawn gan fod ynddi glôb i'w cynorthwyo i ddeall ble mae'r gwahanol wledydd, a mapiau a darluniau ar y waliau i'w helpu i ddysgu. Mae ambell lyfr yno hefyd.

Mae'r plant ieuaf wrth fy nhraed wrth i mi ysgrifennu atat, y ddau hogyn ieuaf yn chwarae gyda marblis ac mae Lisa tu allan yn chwarae hopsgotsh. Rydym wrth ein bodd yn treulio amser gyda'n gilydd fin nos yn canu o gwmpas y piano ac yn chwarae gemau bwrdd neu gardiau.

Hoffwn petaem yn medru siarad a chysylltu'n fwy aml, ond mae'r pellter rhyngom yn ein rhwystro. Ceisiaf gysylltu eto, yn y cyfamser, fy nymuniadau gorau i ti a'r teulu.

Cofion

Gwenno, dy annwyl chwaer

Annwyl Dad,

Diolch am eich llythyr. Mae'n swnio fel petai pethau'n eitha da yn y barics a'ch bod wedi gwneud ffrindiau. Rydych yn edrych yn olygus iawn yn y llun anfonoch chi ohonoch chi yn eich iwniform!

Does dim llawer o newyddion. Mae plant o Lundain wedi dod i fyw yn Bryn Golau achos bod y ddinas yn cael ei bomio. Nid ydynt yn hapus gan eu bod yn colli eu teuluoedd ac ni wyddant a ydynt yn fyw neu beidio. Rydym yn gwneud ein gorau i wneud iddynt deimlo'n hapus drwy chwarae tu allan gyda hwy a mynd â hwy am dro o gwmpas yr ardal. Rydym wedi bod â hwy i'r sinema i wylio ffilm hefyd. Roedd ffilm newyddion cyn y brif ffilm ac felly roeddem yn gallu cael y newyddion diweddaraf am y rhyfel.

Mae Mam yn helpu ar Fferm y Bryn. Maent yn tyfu llysiau yn y caeau nawr gan nad oes llawer o fwyd yn y siopau. Mae siopa'n anodd - dim dillad newydd, dim llawer o gig, dim llawer o fwyd! Mae Mam yn mynd i giwio weithiau os ydyw'n clywed bod ffrwythau yn y siop ond, yn aml iawn, mae'r ffrwythau wedi eu gwerthu cyn iddi gael cyfle i'w prynu.

Mae Cynthia a'i ffrindiau'n mynd allan i ddawnsio bob wythnos gyda'r milwyr sy'n gwersylla yn Bron Felen. Mae hi wedi cael benthyc record a rhyw beiriant rhyfedd i'w chwarae gan un o'r milwyr ac mae hi'n chwarae'r record dro ar ôl tro ... dro ar ôl tro ... - yr un hen gân o hyd ... o hyd! Mae'n codi gwrychyn Mam a fi!

Bob nos rydym yn eistedd o flaen y tân yn gwrando ar y radio - er mwyn clywed y newyddion. Pryd bydd y rhyfel yma'n gorffen a phryd byddwn yn eich gweld chi eto? Dw i'n dyheu am eich gweld chi ac am gael siarad â chi eto.

Caru chi!

Eunice

Annwyl ddyddiadur,

Cyrhaeddodd cerdyn Nadolig a'r llythyr blynyddol oddi wrth Wncwl John y bore yma ac roedd Mam wrth ei bodd i dderbyn ei newyddion - ond roedd hi'n hiraethu hefyd am gael gweld ei brawd a siarad â fe. Dywedodd fod dros ddeng mlynedd ers iddo symud i Seland Newydd i fyw. Mae'n bosib y bydd yn dod draw i Gymru yn ystod yr haf y flwyddyn nesaf ond bydd e'n ysgrifennu yn nes at yr amser i roi'r manylion i ni.

Cawson ein hanrheg Nadolig heddiw - wythnos yn gynnar! Teledu du a gwyn! Mae Mam yn dweud byddwn ni'n gallu gwyllo rhaglenni Cymraeg a Saesneg ar ddwy sianel. Bobl bach, byddwn ni'n gallu **dewis** pa raglenni rydyn ni eisiau gwyllo! Nid ydym yn cael ei wyllo tan Ddydd Nadolig gan mai dyma'n hanrheg Nadolig!

Rhaid i fi wneud prosiect dros wyliau'r Nadolig (diolch, Mrs Jones Cymraeg!) ac felly es i i'r llyfrgell heno i chwilio am lyfrau ar y Plygain. Doedd dim un llyfr addas yno ac felly mae'r llyfrgellydd yn mynd i archebu llyfr o gangen arall. Bydd yn cyrraedd o fewn yr wythnos, mae'n debyg. Gobeithio, wir, neu ni fyddaf yn gallu gwneud fy ngwaith a bydd Mrs Jones Cymraeg yn flin.

Es i gyda Mam i'r caban ffonio heno i archebu bywd o siop Williams yn Aberystwyth. Bydd yn barod i'w gasglu ddydd Sadwrn. Byddwn ni'n cael pob math o ddanteithion ar gyfer y Nadolig (gobeithio!)

Wel, nid oes mwy o newyddion ac nid oes dim byd arall i'w wneud, felly nos da!

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
cymryd ar ôl	edrych neu ymddwyn fel	(to) take after
ieuaf	mwyaf ifanc	youngest
marblis	pelî bach gwyr	marbles
barics	canolfan ar gyfer milwyr	barracks
codi gwrychyn	gwneud rhywun yn flin	(to) annoy, anger
blynyddol	bob blwyddyn	annual
hiraethu	dyheu am	(to) long for
cangen	adran neu ganolfan arall	branch
danteithion	pethau blasus	delicacies

Dau fywyd

Edrychwch ar y llun yma.



Pwy sy yn y llun?

Ble maen nhw, tybed?

O ba fath o gefndir maen nhw'n dod, tybed?

Pa fath o bobl ydyn nhw? Edrychwch am gliwiau, e.e.

- beth maen nhw'n ei wisgo
- beth sydd ganddyn nhw
- beth maen nhw'n ei wneud.

Pa fath o fywyd sydd ganddyn nhw, tybed?

Ewch i **Tasg 1**.

Y “ffrind” o dan y gobennydd

Ydych chi'n cael digon o gwsg?

Faint yw “digon o gwsg”? Wel, yn ôl yr arbenigwyr, mae angen rhwng wyth a deg awr o gwsg ar bobl ifanc. Ydych chi'n cael cymaint â hyn?

Oeddech chi'n gwybod?

Mae cwsg yn helpu'r corff i ddatblygu, mae'n helpu'r ymennydd i ganolbwyntio, mae'n helpu'r corff i aros yn iach. Felly, os ydych chi eisiau cael corff da ac os ydych chi eisiau cael 100% yn eich prawf mathemateg, rydych chi'n gwybod beth i'w wneud!

Os dydych chi **ddim** yn cael digon o gwsg rydych chi'n fwy tebygol o deimlo strés, teimlo'n isel a methu canolbwyntio yn yr ysgol. Felly, os dydych chi ddim eisiau bod yn hen snichyn diamynedd sy'n colli ei dymer bob pum munud, rydych chi'n gwybod beth i'w wneud!



Mae rhai gwyddonwyr yn dweud bod cael noson dda o gwsg mor bwysig â diet iach. Mae'r corff angen diet iach o lysiau a ffrwythau ac mae'r ymennydd angen diet iach o gwsg. Mae'n syml!

OND ...

... mae problem fawr yn wynebu pobl ifanc heddiw – ac mae'r broblem fawr yn gysylltiedig â “ffrind” agos iawn ...



Mae'r "ffrind" yma'n mynnu bod ei berchennog (chi efallai!) yn mynd â fo i bob man – i'r gwely hyd yn oed!! Yno, o dan y gobennydd, mae'n gorwedd yn llechwraidd nes ... yn sydyn ... mae'n dirgrynu ac yn gwneud sŵn sy'n ddigon i ddefro'i berchennog am un .. ., dau ..., tri o'r gloch y bore.

O ddifri, ydych chi'n mynd â'ch ffôn i'r gwely efo chi?

Oeddech chi'n gwybod?

Mae hyn yn ddrwg i chi! I ddechrau, mae'n bosib byddwch chi'n colli golwg ar faint o amser byddwch chi'n treulio yn anfon ac yn derbyn negeseuon a bydd hi'n bryd i chi godi cyn i chi droi rownd i gysgu. Yn ail, bydd y golau ar y sgrin yn gwneud i'ch ymennydd chi feddwl ei bod hi'n ganol dydd a rhaid i chi aros yn effro – yn lle mynd i gysgu! Sôn am ddryslud!

Felly, heno, pan fyddwch chi'n mynd i'r gwely, ac yn rhoi'r ffôn annwyl wrth ochr eich wely, neu o dan eich gobennydd ...

CALLIA plis!

**Ymchwil gan y Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a dulliau Cymru (WISERD); am fwy o wybodaeth ar yr arolwg yma, ewch i: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/34250348>*

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
snichyn	person crintachlyd	misery guts
diamynedd	heb amynedd	impatient
perchennog	rhywun sy'n berchen ar	owner
dirgrynu	crynu	(to) vibrate

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
llechwraidd	yn gyfrwys, yn slei bach	slyly
dryslyd	yn creu dryswch	confusing
Callia!	ffurf orchmynnol y ferf callio	Wise up!

Pen-blwydd hapus



"Mwynhewch. Ffoniwch pan fyddwch chi'n barod i fi ddod i'ch casglu chi." Dyna eiriau olaf Mam wrth iddi yrru i ffwrdd a gadael y pedwar ohonon ni tu allan i'r sinema. Oedd, roedd dathliad fy mhen-blwydd wedi cyrraedd, ar ôl wythnosau o aros amdano!

"Barod?" gofynnais i'n eiddgar.

"Barod." atebodd Matt a Cheng.

"Erin?" gofynnais. Dim ateb. "Erin?" Dim ateb eto. "Erin, wyt ti'n barod?" gofynnais eto, yn uwch.

Edrychodd i fyny o'i ffôn. "Wyt ti'n barod?" gofynnais eto.

"Ydw. Wrth gwrs," ac i mewn â ni i wyllo'r ffilm.

"Cofiwch ddiffodd eich ffonau," dywedodd y llais ar y sgrin ar ôl i ni eistedd.

"Diffodd ein ffonau?!? Dim perygl!" dywedodd Matt. "Dw i'n hapus i'w roi e ar *silent* ond ei ddiffodd? Byth!"

A dyma'r ffilm yn dechrau – ffilm arswyd llawn dirgelwch. Dyna lle roeddwn i'n cuddio'n llwfr tu ôl i 'nghot yn disgwyl i'r dihiryn neidio allan ar y prif gymeriad. Ond Erin a Matt? Roedd eu pennau nhw'n gwyro tuag at eu sgriniau bach yn hytrach na chyffro'r sgrin fawr.

"Gwylia!!!" gwaeddais i ar Matt wrth groesi'r ffordd i'r maes parcio, ar y ffordd allan o'r sinema. Sgrech teiars yn stopio a dyn yn codi ei ddwrn tuag aton ni.

Roeddwn i wedi ffonio Mam bum munud yn gynt ac roedd hi'n gyrru i mewn i'r maes parcio i'n casglu.

"Sori – neges gan Ben. Sgoriodd e ddwy gôl y prynhawn 'ma," eglurodd Matt.

"Grêt," atebais. "Ond gawn ni jyst canolbwyntio ar beth sy'n digwydd nawr - plîs?"

"Sori," dywedodd Matt eto, gan anfon neges sydyn ar ei ffôn.

I mewn â ni i'r car.

"Mae popeth yn barod gartre," dywedodd Mam. "Mae'r gwelyau wedi eu gwneud a'r pizzas blasus yn y ffwrn yn barod."

"Gwych. Dw i ar lwgu," dywedodd Cheng, ac i ffwrdd â ni am noson o fwynhau yn ein tŷ ni.

"Pen-blwydd hapus iawn i ti," dywedodd Mam wrth iddi roi'r gacen ar y bwrdd o 'mlaen.

"Mae'n edrych yn hyfryd," dywedais.

"Beth am gael llun?" awgrymodd Cheng. Ar hynny, tynnodd ei ffôn o'i boced, tynnodd lun a rhoiodd y ffôn yn ôl yn ei boced.

"Wyt ti eisiau darn?" gofynnodd Mam i Matt.

Ar ôl rhai eiliadau, cododd Matt ei lygaid o'r gêm ar ei ffôn, sylweddolodd mai gyda fe roedd Mam yn siarad ac atebodd yn frysio, "O ... gwych ... diolch yn fawr iawn."

Erbyn hyn, roedd Erin ar goll yn llwyr yn ei ffôn – yn edrych ar luniau o Lisa a Becca yn dawnsio ym mharti Lois. "O, maen nhw mor lwcus – maen nhw wedi mynd i barti Lois heno. Maen **nhw'n** cael amser gwych yn ..."

Sylwodd ar y boen ar fy wyneb i a derbyniodd ddarn o gacen gan Mam.

"Pam wyt ti'n gwneud hynna?" gofynnodd Cheng, a oedd yn mwynhau ei gacen, i Matt, a oedd yn edrych ar ei ffôn yn gyson.

"Beth?"

"Edrych dy ffôn bob dwy funud," atebodd Cheng.

"Dw i ddim ..."

"Wyt, rwyd ti'n edrych arno bob dwy funud."

"Efallai bod rhywun yn trio cysylltu."

"Ond rwyd ti'n cael gwybod gan y ffôn pan fydd rhywun yn cysylltu, on'd wyt ti?"

"Ydw, ond mae'n well gwirio hefyd – rhag ofn fy mod i ddim yn cael gwybod. Fyddwn i ddim eisiau colli neges bwysig."

Ar ôl ffilm arall (gyda dau ohonon ni'n gwyllo'n eiddgar a'r ddau arall yn rhannu eu sylw rhwng y sgrin fawr a'r sgriniau bach), i ffwrdd â ni i'r gwely.

"Gwelwn ni chi yn y bore," dywedais wrth Matt a Cheng ac i mewn â fi i'r ystafell roeddwn i'n mynd i'w rhannu gydag Erin. Roedd ei llygaid yn sownd i'w ffôn symudol.

"Mae Lisa a Becca wedi cyfarfod â dau fachgen golygus iawn – ac maen nhw wedi bod yn dawnsio gyda nhw drwy'r nos ac maen nhw'n dal i fwynhau'r parti a ..."

"Nos da," dywedais, gan fynd i mewn i'r gwely sengl oedd wrth ochr ei gwely sengl hi.

"Beth? Ti'n mynd i'r gwely nawr?" gofynnodd Erin yn syn.

"Mae hi **YN** un o'r gloch," atebais.

"Ond mae Lisa a Becca yn ..."

"Nos da, dywedais eto, a symudais fy llaw tuag at y lamp, yn barod i'w diffodd.




"O, iawn," atebodd Erin, gan bwysio'r ddau obennydd a'u gosod un ar ben y llall fel ei bod hi'n gallu eistedd i fyny yn y gwely.

Diffoddais y golau, ond roedd golau main ei sgrin fach yn fy rhwystro rhag cysgu. Dyna lle buodd hi'n chwerthin ... yn ochneidio ... yn teipio ... yn aros am ateb ... yn teipio eto'n ddiwedd tan oriau mân y bore, nes, yn y diwedd, diffoddodd y sgrin a rhoi'r teclyn bach o dan ei gobennydd - rhag ofn y byddai angen iddi ymateb ar frys yn ystod y nos ...










Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
yn llwfr	heb fod yn ddewr	cowardly
gwyro	plygu	(to) bend
ar hynny	yna	then
main	tenau	thin

Problem

 Ceri	<p>Oes rhywun yn gallu fy helpu i os gwelwch yn dda? Dw i'n chwilio am gytundeb ffôn newydd.</p>
 Kamal	<p>Dim problem.</p>
 Ceri	<p>Dw i wedi cael pregeth gan fy rhieni yn dweud bod angen i fi ystyried "gwerth am arian". Maen nhw'n dweud bod fy nghytundeb ffôn i ar hyn o bryd yn rhy ddrud.</p>
 Kamal	<p>Beth wyt ti'n talu ar hyn o bryd?</p>
 Ceri	<p>Dw i'n talu £29 y mis a £20 am y darn llaw.</p>
 Kamal	<p>Bobl bach! Faint o funudau wyt ti'n ei gael?</p>
 Ceri	<p>Dw i'n cael 1000 o funudau a 500 o negeseuon testun.</p>
 Kamal	<p>A faint o ddata?</p>

 Ceri	2GB.
 Kamal	Faint yw hyd y cytundeb?
 Ceri	24 mis.
 Kamal	Oes cynnig arbennig?
 Ceri	Dim erbyn hyn. Roeddwn i'n cael 1GB yn ychwanegol am y chwe mis cyntaf.
 Kamal	Mae'r cytundeb hwn yn ddrud iawn.
 Ceri	Dyna beth mae fy rhieni i'n ddweud!
 Kamal	Mae cytundebau rhatach na hynna ar gael ond i ti chwilio.
 Ceri	Dw i wedi bod yn chwilio a dw i wedi ffeindio dau gytundeb posib.

 Kamal	<p>Beth ydy'r opsiynau?</p>
 Ceri	<p>Opsiwn 1 Cytundeb 24 mis am ugain punt y mis, gyda'r wyth mis cyntaf yn hanner pris a'r darn llaw am ddim.</p>
 Kamal	<p>Mae hynna tipyn yn rhatach. Faint o ddata wyt ti'n gallu cael?</p>
 Ceri	<p>3.5GB.</p>
 Kamal	<p>Faint o funudau?</p>
 Ceri	<p>3500 o funudau a negeseuon diderfyn. Beth wyt ti'n feddwl?</p>
 Kamal	<p>Oes gen ti opsiwn arall?</p>
 Ceri	<p>Oes. Opsiwn 2: Cytundeb 18 mis am £12 y mis ond rhaid talu am y darn llaw - £10 y mis am y 6 mis cyntaf a £15 y mis am weddill y cytundeb.</p>
 Kamal	<p>Faint o funudau, negeseuon testun a data?</p>

 Ceri	<p>2GB o ddata a galwadau a negeseuon testun diderfyn.</p>
 Kamal	<p>Mae hynny'n well na'r cytundeb sy gen ti ar hyn o bryd!</p>
 Ceri	<p>Dw i wedi bod yn ystyried cytundeb talu wrth fynd hefyd. Mae Mam yn meddwl bod hyn yn syniad da achos fydda i ddim yn cael biliau mawr. Pan fydda i wedi gwario'r credyd i gyd, fydda i jyst ddim yn gallu defnyddio'r ffôn nes y bydda i'n talu mwy. Mae'n ffordd dda o reoli faint dw i'n gwario.</p>
 Kamal	<p>Ydy, ond mae'n gallu bod yn ddrutach i ti hefyd – os dwyt ti ddim yn cael y cytundeb cywir. Wyt ti wedi gweld cytundeb talu wrth fynd sy'n apelio?</p>
 Ceri	<p>Ydw. £15 am 1 GB, 700 o funudau a negeseuon testun diderfyn ond mae'n rhaid prynu'r ffôn o flaen llaw a chael y SIM ac mae hyn yn gallu costio tua £200. Mae'n apelio oherwydd galla i ddod allan o'r cynllun yma unrhyw bryd dw i eisiau lle mae'r cytundebau eraill yn fy nghlymu i i mewn am gyfnod arbennig o amser.</p>
 Kamal	<p>Dw i'n meddwl bod angen i ti eistedd i lawr a chymharu'r cytundebau yma gyda'i gilydd i weld pa un sydd orau i ti. Meddylia am faint o ddata wyt ti angen, er enghraifft. Wyt ti'n defnyddio'r ffon i chwarae gemau? Wyt ti angen gwneud llawer o alwadau ac ati?</p>

Beth? Ble? Pam?

Edrychwch ar y sioe sleidiau yma.

Beth sy'n gyffredin i'r sleidiau?

Beth ydy thema'r sioe sleidiau?

Sleid 1



Sleid 2



Sleid 3



Sleid 4



Sleid 5



Ewch i Dasg 1.